CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2024 6.00 y h., 15fed o DACHWEDD 2025,
GWESTY ROYAL OAK, BETWS Y COED.

1. Croeso

Estynnodd Elen Huws, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i Dwynwen ac Aneurin a Dilys am arwain teithiau yn ystod y dydd.

Nododd fod y Clwb wedi cael blwyddyn lwyddiannus a phrysur arall a chyfeiriodd at nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn y dylid ymfalchio ynddynt:

- Cynhaliwyd nifer sylweddol o deithiau dydd ledled Cymru a sawl taith breswyl hefyd.

- Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam gyda 35 o aelodau yn ymuno â thaith goffa Gareth Pierce a chynulleidfa luosog i wrando ar Paula Roberts yn traddodi Darlith Goffa Llew Gwent

- Gwariwyd yr arian o Gronfa Goffa Gareth Pierce i gyd bellach ar weithgareddau ar y cyd i'r ifanc yng Ngwersyll Glan-llyn. Bwriada'r Urdd barhau i drefnu gweithgareddau cyffelyb yn y dyfodol

- Datblygodd y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn ffynonellau pwysig i ledaenu gwybodaeth am weithgareddau'r Clwb

Ar nodyn mwy difrifol cyfeiriodd at y canlynol

- Collwyd aelod ffyddlon o'r Clwb yn ystod yr haf pan fu farw Gareth Everet Roberts yn dilyn damwain beicio ddifrifol. Bu Gareth yn aelod gweithgar o'r Clwb am flynyddoedd; roedd yn fynyddwr profiadol, yn gwmni hwyliog ac yn ffrind da i lawer. Cyfrannodd lawer i'r clwb drwy wasanaethu am gyfnod fel trysorydd ac fel trefnydd teithiau i'r Alban. Mae colled enfawr ar ei ôl.

- Dymunodd adferiad llwyr a buan i Sw, gwraig Richard, ddioddefodd gyfnod hir o waeledd yn ddiweddar.

- Brawychwyd pawb o glywed fod aelod arall o'r Clwb, sef Dylan Evans, yn ddifrifol wael. Roedd Dylan hefyd yn aelod brwdfrydig o'r Clwb ac yn mwynhau'r teithiau, y rhai mwy heriol yn arbennig. Dymunodd yn dda iddo ef a'i deulu.

2. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Iolo ap Gwynn, Medwyn a Tegwen, Hefin a Morfudd Thomas, Haf Hughes, Clive a Rhiannon James, Nia Wyn, Steve Williams, Iolyn Jones, Gwyn Williams (Llanrwst) , Anet Thomas, Gwyn Williams (Chwilog) , Eifion Jones.

3. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2024

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2024 a gynhaliwyd ar 16eg o Dachwedd 2024,

yng Ngwesty Oakley Arms, Maentwrog fel rhai cywir.

4. Adroddiad y Trysorydd.

A. Cyflwynwyd adroddiad a datganiad ariannol ar gyfer 2024/2025 gan Dilys.

Adroddwyd

i. bod gan y Clwb 275 o aelodau yn talu tâl aelodaeth o £25 y pen yn ystod y flwyddyn. Daeth hyn ag incwm o £6,880. Yn ogystal 'roedd nifer o "garedigion" nad oeddynt yn talu'r tâl aelodaeth llawn ac fe dderbyniwyd cyfanswm o £788 oddi wrthynt.
ii. bu gwariant o £1,683.56 ar wahanol eitemau yn ystod y flwyddyn a mynegodd Dilys ei diolch i drefnwyr y teithiau preswyl am sicrhau nad oeddynt yn gwneud colled
iii. gwnaed taliad o £360 o Gronfa Goffa Gareth Pierce am benwythnos i bobl ifanc yng Nglan Llyn. Daeth hyn â'r gronfa i ben.
iv. ar ddiwedd y flwyddyn 'roedd gan y Clwb £5,738.26 yn y coffrau, gostyngiad sylweddol ar y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i benderfyniad y CMP i gynyddu'r ffi aelodaeth.
v. fodd bynnag credai fod sefyllfa ariannol y Clwb yn parhau yn foddhaol ac ei bod yn ddoeth i gadw oddeutu £5,000 wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu ac hefyd er mwyn gwarchod yn erbyn gwariant annisgwyl.)

Cytunwyd derbyn yr adroddiad a'r cyfrifon ar gyfer 2024/2025.

5. Tâl Aelodaeth 2026

Adroddwyd gan Dilys

i. bydd ffi y CMP yn cynyddu eto ar 1 Ionawr 2026 i £30.74 yr aelod, a bwriad y CMP ydyw cynyddu eu ffi yn flynyddol yn unol â chwyddiant. Gan mai £25 yw'r tâl aelodaeth presennol nid yw'r sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy ac mae'n amlwg y bydd yn rhaid i dâl aelodaeth y Clwb gynyddu i gwrdd â'r gofynion.

ii. yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd fe gytunwyd i ddefnyddio arian o goffrau'r Clwb i gwrdd â chynnydd yn nhâl aelodaeth y CMP o'r 1af Ionawr 2025 a gofyn i'r Pwyllgor roi sylw i hyn ac adrodd yn ôl ar y mater i'r Cyfarfod Blynyddol yn 2025

iii. cyfarfu'r Pwyllgor ym mis Hydref i drafod y sefyllfa a phenderfynu argymell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid cynyddu'r tâl aelodaeth i £35 o 1 Ionawr 2026. Credir fod hyn yn parhau i gynnig gwerth am arian a bydd rhywfaint o arian yn cronni yn y coffrau dros y blynyddoedd nesaf fydd yn ddigon i gwrdd â ffi'r CMP am beth amser.

Cytunwyd

i. cynyddu tâl aelodaeth y Clwb i £35 y pen o 1 Ionawr, 2026
ii. gofyn i'r Pwyllgor ystyried gwerth sefydlu trefn o aelodaeth cysylltiol ar gyfer aelodau ddymunai gefnogi'r Clwb heb gymryd rhan yn y gweithgareddau

6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol

Adroddodd Iolo y cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ac fe gynhaliwyd un cyfarfod brys ym mis Hydref, i gyd drwy gyfrwng Zoom.

Gan mai un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb, ceir diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod a bydd y Trysorydd hefyd yn cyflwyno adroddiad am sefyllfa ariannol y Clwb a mantolen i'r Cyfarfod Blynyddol.

Hefyd rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r materion canlynol yn ystod y flwyddyn

a. Taliadau i 'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP).

Gan fod y taliad a wneir gan y Clwb i'r CMP bellach yn £29.33 ar gyfer pob aelod, a thâl aelodaeth presennol y Clwb yn £25, nid yw'r sefyllfa yn gynaliadwy ac roedd dealltwriaeth y byddai'n rhaid i'r Clwb ystyried y tâl aelodaeth ar gyfer 2026. Gan fod hyn ar y gweill, a gan mai derbyn yswiriant drwy fod yn aelod o'r CMP yw un o brif ddibenion ymaelodi, fe benderfynodd y Pwyllgor yng nghyfarfod Ionawr y dylid gwneud ymholiadau gyda chlybiau mynydda eraill i weld a oes ffynonellau eraill o yswiraint y gellid eu hystyried.

Wedi gwneud ymholiadau daeth yn amlwg mai'r CMP yw'r unig gorff sy'n cynnig yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau mynydda. Yn sgil hyn fe benderfynodd y Pwyllgor ym mis Mai fel a ganlyn:

Cytunwyd
i. ei bod yn bwysig bod y Clwb yn trefnu yswiriant ar gyfer yr aelodau ac ymddengys mai'r CMP yn unig sy'n darparu yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau mynydda
ii. bod gwerth hefyd i'r Clwb fod â llais mewn corff sydd a rôl bwysig parthed gweithgareddau mynydda yng Nghymru a thu hwnt
iii. os bydd y CMP heb gyhoeddi pris eu tanysgrifiadau ar gyfer aelodau clybiau erbyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi y dylid cynnal cyfarfod brys rhywbryd ym mis Hydref fel y gellir gwneud argymhelliad ar dâl aelodaeth 2026 i'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd.

Fel y gwelir yn adroddiad y Trysorydd cafwyd gwybod yn niwedd Medi mai £30.74 fydd y tanysgrifiad i'r CMP yn 2026 ac fe gafwyd cyfarfod brys o'r Pwyllgor ar 15fed Hydref, 2025. Cytunwyd argymell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid codi'r tâl aelodaeth ar gyfer 2026 i £35.

b. Archif

Mae trefniadau ar y gweill i drosglwyddo nifer o hen ddogfennau yn ymwneud â sefydlu'r Clwb, nifer ohonynt wedi cael eu harddangos yn stondin y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 2019, i'r Llyfrgell Genedlaethol i'w cadw. Cytunwyd y byddai Steve Williams a Dilys Phillips yn mynd drwy'r dogfennau i weld oes angen sganio rhai ohonynt y gellid eu harddangos pan fydd y Clwb yn dathlu ei hanercanmlwyddiant yn 2029.

c. Polisiau'r Clwb

Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu edrych ar bolisiau'r Clwb yn achlysurol i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion ac yn gyfredol. Hyd yma mae'r Pwyllgor wedi taro golwg dros y polisiau canlynol a'u hadolygu:

Polisi Asesu Risg
Canllawiau Teithiau Preswyl
Polisi Preifatrwydd

Canllawiau Arweinwyr Teithiau

Mae'r polisiau hyn i gyd i'w gweld ar wefan y Clwb o dan y pennawd "Beth yw'r Clwb"

ch. Llochesi

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai arweinyddion taith gario lloches yn ogystal â'r defib ar deithiau'r Clwb os ydynt yn teimlo ei bod yn addas i wneud hynny.

d. Enwi Dringfeydd.

Yng nghyfarfod mis Medi cafwyd adroddiad gan Steve Williams ar drafodaeth y CMP ynglŷn â'r defnydd o enwau Cymraeg a Saesneg yn y byd dringo. Ar ôl ystyried y mater fe benderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

Cytunwyd

i. nodi gwrthwynebiad cryf a llwyr y Clwb i unrhyw ddefnydd o enwau Saesneg ar nodweddion tirluniau Cymru sydd ag enwau Cymraeg cynhenid arnynt a bod hyn yn cynnwys unrhyw ymgyrch i ail-enwi ponciau yn chwarel Llanberis sydd eisoes ag enwau Cymraeg cynhenid arnynt

ii. gyda dringfeydd, nodi fod y sefyllfa yn wahanol. Gan fod dringfa wedi ei datblygu gan ddringwr/wyr unigol eu bod wedyn yn rhoi enw o'u dewis ar y ddringfa berthnasol

dd. Eisteddfod Genedlaethol

Wrth gwrs mae'n dasg flynyddol i'r Pwyllgor wneud trefniadau ar gyfer gweithgareddau'r Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Wrecsam eleni ac fe draddododd Paula Roberts Ddarlith Goffa Llew Gwent ar "Newid Hinsawdd a Mynyddoedd Cymru". Hefyd fe gynhaliwyd Taith Goffa Gareth Pierce yn ystod yr wythnos pan gafwyd criw sylweddol o 35 o aelodau yn ymuno â Richard Roberts ar daith i Gastell Dinas Brân a'r cyffiniau.

Roedd y Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i Paula a Richard am eu cyfraniad ac i'r aelodau hynny fu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y gweithgareddau hyn. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi dechrau ystyried trefniadau ar gyfer Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro.

Derbyniwyd yr adroddiad.

7. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Yn ei adroddiad diolchodd Richard i bawb oedd wedi cytuno i arwain teithiau yn ystod y flwyddyn; mae parodrwydd aelodau i ymgymryd â'r fath gyfrifoldeb yn hanfodol i lwyddiant y Clwb. Diolchodd hefyd i Dwynwen ac Aneurin a Dilys am arwain teithiau yn ystod y dydd.

Nododd

Y trefnwyd cyfanswm o 62 o deithiau yn cynnwys 11 o deithiau du, 15 o rai coch, 26 o rai gwyrdd, 4 felen, 2 wen a gohiriwyd 4 oherwydd tywydd garw,

Cynhaliwyd taith flasu o gwmpas Pedol Marchlyn o dan arweiniad Steve Williams ac ymunodd rhai o'r blaswyr â'r Clwb yn dilyn y profiad

Mae'r Clwb yn aelod o'r Bartneriaeth Awyr Agored ac mae swm o arian i fynychu cyrsiau dal ar gael ganddynt.

Yr Urdd - defnyddiwyd peth o arian y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed yng Ngwersyll Glanllyn yn 2024. Mae'r arian hwnnw bellach wedi dod i ben ond mae'r Urdd gyda chefnogaeth y Clwb wedi penderfynu parhau i gynnig y cwrs. Mynychodd 17 o bobl ifanc y cwrs eleni.

Eisteddfod Genedlaethol - traddodwyd y ddarlith flynyddol yn yr Eisteddfod gan Dr. Paula Roberts, Llanberis ac mae Dwynwen Pennant wedi cytuno i draddodi'r ddarlith yn Eisteddfod y Garreg Las yn 2026.

Cafwyd dwy daith breswyl i'r Alban eleni. Roedd 17 o aelodau ar y daith aeaf i Crianlarich. Wedyn cafwyd taith haf i fynyddoedd y Cairngorm lle mwynhaodd 19 o aelodau dywydd hafaidd yn ystod mis Mai. Yn ogystal aeth rhai o aelodau'r gogledd i lawr i'r Bannau a chael cwmni croesawgar criw'r de ar eu teithiau mynydda. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer teithiau i'r Alban yn 2026 - fe gynhelir taith i Crianlarich ar 7-14 Mawrth 2026 a thaith i Ullapool ym mis Mai 2026. Mynegodd Richard ei ddiolchgarwch i Keith Roberts am drefnu'r teithiau hyn.

Apeliodd ar arweinyddion i ysgrifennu disgrifiadau o'r teithiau gan ddilyn y templad sydd ar wefan y Clwb ac anfon adroddiad a lluniau at Iolo ap Gwynn yn dilyn pob taith a hefyd ar bob aelod sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu adroddiadau ar Facebook, Instagram ac ati

Cytunwyd

i. Derbyniwyd yr adroddiad a diolchodd y Cadeirydd i Richard am ei holl waith yn trefnu'r rhaglen weithgareddau
ii. gan fod Richard wedi sôn bod cyllideb ar gael gan y Bartneriaeth Awyr Agored, gofyn i Dwynwen , sef y pwynt cyswllt gyda'r Bartneriaeth, eu holi os yn bosib trefnu cwrs cymorth cyntaf a holi a fyddai aelodau yn dymuno ei fynychu.

8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Cafwyd adroddiad gan Iolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb. (Fe gyflwynwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd gan fod Iolo wedi ymddiheuro am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod).

Adroddwyd

Cyhoeddir y rhaglen weithgareddau, hanes pob gweithgaredd, ynghyd â newyddion ar y wefan. Gofynnodd i bawb dagio @Clwb Mynydda Cymru pan yn negesu ar y gwefannau cymdeithasol a hefyd ddilyn ein cyfrif Gweplyfr/Facebook a hoffi a/neu rannu'r hanesion ag eraill. Mae hyn yn rhoi hysbysrwydd rhad am weithgareddau'r clwb

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion bron i 60 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â'r lluniau perthnasol ar Flickr. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook cysylltiedig yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf, am ba reswm bynnag!

Mae'r wefan yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â phob math o gyfrifiaduron. Roedd yr 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau iOS ac Android ar gael drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan.

Diolchodd i bawb anfonodd adroddiadau a hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Atgoffodd fod tudalen Newyddion ar y wefan hefyd a bod croeso i bawb anfon manylion neu hanes unrhyw beth allai fod o ddiddordeb i'r aelodau drwy e-bost i'w osod arni. Adroddwyd am nifer o faterion yno yn ystod y flwyddyn.

Ers Tachwedd 2024, defnyddiwyd y wefan bron i 4 mil o weithiau (266 o ddefnyddwyr rheolaidd o'r DG, 1 o Sbaen, 1 o Wlad Groeg ac 1 o Nepal). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn.
Y Gweplyfr / Facebook Yn ystod y flwyddyn cafwyd dros 170,000 o ymweliadau â'r dudalen. Y diwrnod prysuraf oedd 9 Mehefin, gyda dros 4,000 o ymweliadau!
Mae bellach14,289 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau ers 2005, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr a phob taith gyda'i halbwm ei hunan. Gall aelodau lawrlwytho unrhyw un o rhain ar gyfer defnydd personol. Hyd yma cafwyd 929,382 o ymweliadau â'n safle.

Diolchodd hefyd i'r rhai sy'n gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac Instagram. Mae'r wefan yn gofnod allweddol o weithgareddau'r clwb dros y blynyddoedd a gofynnodd i bawb ddal ati i gefnogi ein gwefan a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Mae'n bwysig lledaenu'r wybodaeth am weithgareddau'r clwb yn y dulliau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu ac mae'n ffordd dda o ddenu aelodau newydd.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a diolch i Iolo am ei holl waith

9. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2026:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts
Ysgrifennydd Gweithgareddau : Richard Roberts
Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn
Trysorydd: Dilys A Phillips

10. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2026

Adroddwyd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol

i. fod angen i'r Cyfarfod Blynyddol gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2026.

ii. Roedd aelodaeth bresennol y Pwyllgor fel a ganlyn:

Elen Huws – Cadeirydd
Keith Roberts – Is-gadeirydd
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts– Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dewi Hughes
Dwynwen Pennant
Gethin Rowlands

Eurig James
Steve Williams
Erwyn Jones
Mathew Williams

iii. Yn ôl y cyfansoddiad bydd traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr)yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi gwasanaethu hiraf, sef eleni

Richard Roberts
Iolo ap Gwynn
Iolo Roberts
Gethin Rowlands

iv. Roedd y 4 aelod a oedd i ymddeol eleni wedi datgan eu bod yn fodlon i barhau i wasanaethu ar y Pwyllgor.

Cytunwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau y bydd aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2026 yn parhau fel a nodir yn pwynt ii uchod.

11 Archwilydd

Penderfynwyd

i. penodi George Jones fel archwilydd.
ii. diolch i George am ei wasanaeth ers nifer sylweddol o flynyddoedd bellach

12. Unrhyw Fater Arall

Codwyd y materion canlynol:

<u>Cyfarfod Blynyddol</u>

Gan fod y nifer yn mynychu'r cyfarfod eleni yn isel, ac wedi bod yn lleihau yn gyffredinol dros y blynyddoedd, penderfynwyd gofyn i'r Pwyllgor roi sylw i'r mater. Codwyd rhai o'r pwyntiau isod fel rhai y gellid eu hystyried ymysg eraill:

- Ffurf
- Cost
- Lleoliad
- Beth allasai weithio yn well
- Diben gofyn i'r aelodau yn uniongyrchol os oedd rheswm penodol pam nad oeddynt yn mynychu

<u>Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP)</u>

Nododd Gwyn Roberts (Llanberis) fod gan y CMP rwydwaith o gytiau ledled y wlad y gallai aelodau'r Clwb, fel aelodau o'r CMP, wneud defnydd ohonynt.

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd Elen i bawb am fynychu ac i Dwynwen ac Aneurin a Dilys am arwain teithiau llwyddiannus yn ystod y dydd. Hyderai y byddai pawb yn mwynhau eu cinio a chymdeithasu gyda chyd aelodau. Dymunodd siwrne ddiogel adref i bawb a mynegodd y gobaith y bydd 2026 yn flwyddyn lwyddiannus eto i'r Clwb.